

52)Cyngor Cymuned Llanfihangel ar arth/Community Council:cyfarfod misol/monthly meeting.Yr Hen Gapel,Pencader Gorffennaf 17eg 2017—17/07/17 8pm

Cynghorwyr yn bresennol/Councillors present:Eirian Jones(cadeirydd),Val Davies,Haulwen Lewis,Annette Davies,

Yvonne Griffiths,Julie Mathews,Barbara Cobain,Dylan Davies,Martin Griffiths.C.Sir L.Evans

Clerc:Anita Evans; Ymddiheuriadau:Glyn Jones,Melfyn Evans; Heddlu: Melanie Davies.

1)Croesawodd Eirian Jones(cadeirydd)bawb i'r cyfarfod,ac yn arbennig Martin Griffiths i'w gyfarfod cyntaf.Cafodd yr Heddwas gyfle i roi gwybodaeth;pethau'n weddol dawel yn yr ardal.Cafodd wybod fod plant ifanc yn chwarae ar ein ffyrdd yn dal i fod yn broblem.Eirian Jones welcomed all to the meeting,and invited the PCSO to give her information.There were no incidents to report;again Councillors reminded the officer that young children are still playing out on our roads.It is a worry.The officer was thanked for her presence.

2)Derbyniwyd ymddiheuriadau oddiwrth M.Evans a G. Jones(appologies received)

3)Datganiadau/ declaration of interest:H.Lewis(8e);E. Jones(8d)

4)Cyn mynd ymlaen â'r cyfarfod, roedd y Cadeirydd yn dymuno atgoffa pawb ein bod yn gweithio fel tîm.The chairman again stressed that this Council works as a team.Cofnodion Gorffennaf/July minutes—cafwyd yn gywir/found to be correct prop.Y.Griffiths;sec.V.Davies.

5)Materion yn codi/matters arising:

a)Cafwyd adroddiadau byr gan y Cynghorwyr sy wedi mynychu cyrsiau'n ddiweddar;dywedodd E.Jones,ar ran is-bwyllgor cyllid,fod y wybodaeth a gafwyd wedi bod o help,ac y bydd sesiwn arall yn y dyfodol.Roedd B.Cobain wedi bod mewn cyfarfod i Gynghorwyr newydd,ac A.Davies,V.Davies.J.Mathews a'r Clerc wedi mynychu cwrs Côt Ymddygiad.Councillors gave information on recent courses attended.

b)Audit wedi ei anfon/documents have been sent to Grant Thornton.

c)Cyfleusterau Alltwalis-dim newyddion o hyd/Alltwalis Conveniences —no reply from the County Council so far.

ch)T. Williams a J.McEvoy wedi ymateb i'n rhestr o broblemau ar y ffyrdd.Mae rhai hewlydd yn mynd i gael darnau wedi llenwi;does dim arian i ail-daro.Up dates from Highways re our problems.There is no money for re-surfacing,only patching.

d)Rhiw Cwm Gôf/Heol y Felin—bydd y mater o osod arwyddion gyda'r enwau yma yn cael eu trefnu yn y dyfodol.

dd)Adolygu costau'r ddwy Fynwent-Mynwent y Plwyf,Pencader a Mynwent Troedyrhiw,Alltwalis—ar ôl trafodaeth penderfynwyd ar y taliadau canlynol/new charges for both Cemeteries under the responsibility of this Council:claddu a chladdu llwch--£150;carreg fedd newydd/new headstone--£75.00;ail-lythrennu/additional inscription--£50.00. Bydd y costau'n cael eu hadolygu yn flynyddol/the charges will be reviewed annually.These matters proposed by A.Davies;seconded by V.Davies.Bodlonodd H.Lewis fynd i brynu clo newydd digidol i Fynwent y Plwyf/H.Lewis will buy a new combination lock for the Parish Cemetery.

e)Adolygu cyflogau-gadawodd y Clerc yr ystafell/Clerk left the meeting so that wages could be discussed.Bydd rhain yn cael eu hadolygu'n flynyddol/to be reviewed annually.

53) 5)Materion parhâd/matters arising contd.

f)Garej Highway—yn dilyn cwynion am yr holl geir sy'n parcio ar y ffordd o flaen y garej,mae'r C.Sir wedi addo monitro'r sefyllfa,ac i gasglu tystiolaeth/the County Council say they are monitoring the situation around Highway Garage,following numerous complaints re parked cars causing problems for locals along that stretch of road.

6)Cyfrifon/Finance—cafwyd yr adroddiad yn gywir/accounts found to be correct.Bilie i'w talu/bills to be paid:cyflogau/wages and HMRC:£1,259.52;U.LL.C/O.V.Wales-training for B.Cobain:£40.00;Green House(blodau i'r cafnau)£500;N.Lloyd: £600;K.Evans:£1,800;M.Jones:£960.50;A.Davies:£1,339.50;(y pedwar olaf wedi bod yn adnewyddu'r Cyfleusterau ym Mynwent y Plwyf/these were costs for repairs to the Parish Cemetery toilet block.

Daeth rhai o'r Cynghorwyr ynghyd nos Fawrth 18ed am 7.30 ar y Fynwent i sicrhau fod y gwaith yn dderbyniol cyn i'r Clerc dalu'r biliau uchod/there was a site meeting on the 18/07 to ensure that the repair work is satisfactory.The work was passed.

7)Cynllunio/planning:(gadawodd C.Sir L.Evans/left the room)

W/35830---adeilad fferm aml-bwrpas –Blaenblodau,New Inn/multi purpose farm building for Emyr Jones.

Dim gwrthwynebiad/no objection)

8)Gohebiaeth/Correspondence:

a)GIG Cymru—holiadur ar y we/NHS-questionnaire on their web-site.

b)V.Davies wedi anfon e-bost yn gofyn am oriau gwaith y Clerc,a chodi'r pwynt fod dim angen ffonio neu e-bostio'r Clerc gyda materion di-bwys.Trafodwyd,a phasiwyd defnydd o e-bost yn unig,a hynny am faterion pwysig.Hefyd mae angen anfon at gyfeiriad gmail y Cyngor.Councillor V.Davies had sent an e-mail stating concerns re Clerk's working hours,and members contacting the Clerk on small matters.Web address for the web-site should be used for contact.

c)H.Lewis wedi anfon e-bost yn gofyn am strimmer newydd i hwyluso gwaith Haydn Jones.H.Lewis had sent an e-mail requesting a new strimmer for Haydn Jones caretaker.A price of £320 plus VAT has been quoted.This was passed-prop.B,Cobain,sec. M.Griffiths.

ch)E-bost oddiwrth Sian Thomas yn datgan ei dymuniad i ymddiswyddo/Sian Thomas has sent a letter of resignation.

d)C.Sir Ceredigion yn bwriadu cau 'r ffordd o Wasg Gomer i bentre Pontweli am wythnos,er mwyn gwaith cynnal a chadw.Ceredigion C.Council will close the new road from Gomerian Press into Pontweli for resurfacing.E.Jones declared an interest,and left the meeting.

dd)S.Post Llandysul yn cau 31/08 ac yn agor Medi'r 1af yn siop Ck/Llandysul P.O.to close in the village Aug 31st,and re-opens in CK Sept 1st.

e)E-bost oddiwrth Bethan Edwards Innogy wedi eu ddsbarthu(dangosodd H.Lewis ddiddordeb)E-mail from B.Edwards –(Innogy)had been circulated(H.Lewis declared an interest).

f)Cyfarfod Blynyddol U.Llais Cymru 30/09;bydd y Clerc yn archebu 2 le/AGM at Bulilth Wells,Clerk will book 2 places.

54)UFArall/AOB: (gwybodaeth yn unig/info.only)

A.Davies—sbwriel ar y tro yn agos i Dryslwyn/arwydd fflachio 30mya ar y troad i Ddolgran ddim yn glir.Problem with fly-tipping near Dryslwyn/30mph flashing sign near Dolgran junction isn't visible.

V.Davies—tyllau ar yr hewl ar bwys Eithinog,a Garthenor;sbwriel cardfwrdd wedi eu gadael ar bwys Greenhill;sedd ochr draw V.Services angen cywiro—gofynnir i Haydn Jones.Reports of holes on the road near Eithinog and Garthenor,Pontweli;cardboard has been left near Greenhill;bench opposite Valley Services needs repairing-Clerk will inform Haydn Jones.

C.S.L.Evans---am ddweud fod cynllun gan y C.Sir i osod tai gwag ar ran y perchnogion,a fydd yn cael ei lansio yn y Sioe/the C.Council plan to act as agents to rent out empty properties on behalf of property owners.

D.Davies—cwyno am gyflwr gwael y clustogau cyflymdra ym Mhencader/Safle Bro'r Hen Wr yn dal heb gael tarmac.The condition of the speed cushions in Pencader is very poor/the site at Bro'r Hen Wr still has not been tarred.

M.Griffiths—wedi rhoi gwybod i'r C.Sir fod dau olau stryd ym Mhontweli ddim yn gweithio;mae dŵr glaw o Benrhiw yn rhedeg fewn i Bontweli,ac wedi newid ei gwrs/angen sweeper.Reports have been sent to the C.Council of faulty street lights/flood water runs from Penrhiw onto the Valley Services road/sweeper needed in Pontweli.

B.Cobain—problemau gyda casglu sbwriel o Banc Farm,Pencader—refuse lorry not collecting regularly.

J.Mathews—gosod syniadau am daith cerdded ar y llwybr cyhoeddus ar bwys Melin Arddol;gofidio am gyflwr y wal tu ôl y bwrdd hanes.Suggests creating walks in the area;concerned about the state of the wall behind the info.board.

H.Lewis—atgoffa fod eisiau trafod y cyllid/we need to place the next review of finances on the agenda.

Awst 18ed/Aug.15th-cyfarfod o'r is-bwyllgor cynllunio/meeting of planning sub-committee:

Presennol/present:

Eirian Jones,Val Davies,Yvonne Griffiths,Melfyn Evans,Glyn Jones,Anita Evans(Clerc).

Cais/application PA/15467 for 8/12 or 20 dwellings at Blossom Garage,Pencader.

Cadeiriwyd gan Eirian Jones.Bu trafodaeth,a phenderfynnwyd gwrthwynebu'r cais am y rhesymau isod.After a discussion,it was decided to object by letter-V.Davies prop.Y.Griffiths seconded. Dyma'r rhesymau/below are the reasons:

a)Does dim tai fforddadwy yn un o'r opsiynau/there are no plans for affordable housing in any of the 3 options.

b)Mae cais amlinellol am dai newydd wedi ei gofresrtu ochr draw i'r ffordd fawr/there has been an outline application registered the other side of the main road.

c)Mae'r ardal wedi bod yn safle busnes ers blynnyddoedd maith,gan gyflogi nifer fawr o bobl lleol.Does dim tai wedi bod ar y safle.Hoffai'r Cyngor Cymuned weld diwydiannau ysgafn yn cael eu lleoli yma,gan gyflogi ein pobl ifanc-rhywbeth sy wir angen.This site has been a place of business for decades,and has provided work for many local people.There have not been dwellings here.The Community Council would very much like to see light industries being established here which would provide our young people with much needed employment.

